Adolygiad Blynyddol 2011
Tywysog Cymru a Duges Cernyw

ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2011

CYNNWYS

01 | 09 CYFLWYNIAD

02 Crynodeb

04 Ymrwymiadau a gweithgareddau

06 Cyfrifoldeb amgylcheddol

08 Dyletswyddau Brenhinol a Gweithgareddau Elusennol

10 | 19 GWNEUD GWAHANIAETH

10 *The Prince's Trust*: gweddnewid bywydau

11 Seremoni cyflwyno medalau milwrol

12 Canolfan wasanaeth Rape Crisis

13 Adfywio Camp Hill

14 Sefydliad y Mynydd Gwyrddlas (*Turquoise Mountain*)

15 Adfywio Stanley Mills

16 Yr Ymgyrch Wlân

18 Cyfrifyddu er Cynaliadwyedd

19 Emmaus UK

£123 miliwn

At elusennau

20 | 24 27 INCWM, GWARIANT A STAFF ELUSENNAU'R TYWYSOG

Diben yr Adolygiad Blynyddol hwn yw cynnig golwg cyffredinol a chryno ar weithgareddau swyddogol ac elusennol Tywysog Cymru a Duges Cernyw, ac i gynnig gwybodaeth am eu hincwm a'u gwariant swyddogol yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011.

Mae fersiwn fwy cynhwysfawr a manwl o'r Adolygiad, ynghyd â gwybodaeth, ffotograffau, ffilmiau ac ystadegau ychwanegol, ar gael ar www.princeofwales.gov.uk, sef y wefan swyddogol ar gyfer Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry.

Ar y wefan gallwch hefyd gael y newyddion diweddaraf, datganiadau i'r wasg, fideos, areithiau, erthyglau a gwybodaeth am ddyddiaduron Eu Huchelderau Brenhinol, ynghyd â llawer o fanylion bywgraffyddol.

www.princeofwales.gov.uk
Mae manylion ar wefan y Tywysog am yr holl ymrwymiadau swyddogol, ac mae areithiau, erthyglau, a dewis helaeth o wybodaeth fywgraffyddol a ffeithiol yno hefyd.

CRYNODEB

96

Cyflawnodd y Tywysog a'r Dduges 96 o ymrwymiadau gyda'r Lluoedd Arfog, yma yn y Deyrnas Unedig a thramor.

Mae'r Adolygiad Blynyddol hwn yn cynnwys y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011. Yn ogystal â'r cyflwyniad hwn, sy'n rhoi sylw i ddewis o ymrwymiadau'r flwyddyn, esboniad o effaith amgylcheddol gweithgareddau'r Aelwyd a golwg cyffredinol ar brif elfennau rôl Eu Huchelderau Brenhinol, mae dwy adran iddo: y naill yn tynnu sylw at y ffordd mae Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n gwneud gwahaniaeth yn sgil eu gweithgareddau a gwaith eu helusennau, eu mentrau a'u mudiadau; a'r llall yn amlinellu'n gryno sut mae gwaith a swyddfa Eu Huchelderau Brenhinol yn cael eu hariannu.

"Gan fod Lluoedd Arfog Prydain yn gweithredu ym mhob rhan o'r byd, mae gan y Teulu Brenhinol rôl bwysig yn tynnu sylw at eu gwaith a'u haberth ac yn cynnal ysbryd y milwyr a'u teuluoedd."

Er nad oes gan Etifedd Yr Orsedd rôl gyfansoddiadol sefydlog, mae Tywysog Cymru, gyda chymorth ei wraig Duges Cernyw, yn ceisio gwneud cymaint ag y gallai i wneud gwahaniaeth ac i wella pethau yn y Deyrnas Unedig ac ar hyd a lled y byd. Mae'n bosib rhannu ffordd Ei Uchelder Brenhinol o gyflawni hyn yn dair rhan gyffredinol: cyflawni dyletswyddau brenhinol i gefnogi'r Frenhines; gweithio fel entrepreneur elusennol; a hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth y genedl. Mae rhagor o fanylion am rôl a gwaith Eu Huchelderau Brenhinol i'w cael ar dudalen 8-9 ac yn www.princeofwales.gov.uk.

Crynodeb

Mae ffordd Tywysog Cymru o fynd ati i gyflawni ei ddyletswyddau cyhoeddus yn weddol gyson o'r naill flwyddyn i'r llall, ac unwaith eto'r prif themâu yn ystod 2010-2011 oedd: gweithio gyda'r sectorau preifat a chyhoeddus a chyrff anllywodraethol ym meysydd cynaliadwyedd, adfywio cymunedau a gweddnewid bywydau pobl ifanc; cefnogaeth Eu Huchelderau Brenhinol i'r Lluoedd Arfog; a'u gwaith ar ran Llywodraeth Prydain ar eu hymweliadau tramor.

INCWM A GWARIANT

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth

	2011 £000oedd	2010 £000oedd
Incwm o Ddugaeth Cernyw	17,796	17,161
Ariannu drwy Grantiau Cymorth ac Adrannau'r Llywodraeth	1,962	1,664
Cyfanswm yr incwm a'r ariannu	**19,758**	**18,825**
Gwariant swyddogol	11,406	10,723
Gweddill ar ôl y costau swyddogol	**8,352**	**8,102**
Trethi	4,398	3,484
Gwariant answyddogol	2,539	1,694
Gwariant cyfalaf (llai dibrisio), ad-daliadau benthyciadau a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn	1,184	2,695
Gwarged arian net	**231**	**229**

Mae data ariannol hanesyddol ar: **www.princeofwales.gov.uk/**

CYFRIF CYNALIADWYEDD

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth

	2011 tunelli metrig	2010 tunelli metrig
Allyriadau cyfwerth o CO_2		
Yr Aelwyd: ffynonellau dan reolaeth yr Aelwyd	1,523	1,581
Yr Aelwyd: teithiau tramor swyddogol	438	1,479
Home Farm	2,025	2,060

Incwm ac ariannu
(Cyfanswm £19.758m)

- Incwm o **£17.796m** o Ddugaeth Cernyw
- Ariannu o **£1.962m** o Grantiau Cymorth ac Adrannau'r Llywodraeth

Gwariant a threthi
(Cyfanswm £19.527m)

- **£11.406m** ar wariant swyddogol
- **£4.398m** ar drethi
- **£2.539m** ar wariant answyddogol
- **£1.184m** ar wariant cyfalaf (llai dibrisio), ad-daliadau benthyciadau a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn

Mae'r Tywysog wedi bod wrthi ers blynyddoedd lawer yn tynnu sylw at y problemau sy'n codi yn sgil gorddefnyddio adnoddau naturiol nad oes modd eu hadnewyddu, a newid yn yr hinsawdd. Roedd dau brif ddigwyddiad yn ystod 2010: ym mis Mai, traddododd y Tywysog y brif araith mewn cynhadledd yn Oslo, Norwy, ar yr hinsawdd a fforestydd (*Climate and Forest Conference*) a drefnwyd i gynorthwyo'r ymdrechion i gwtogi ar ddinistrio a diraddio fforestydd glaw'r byd; ac ym mis Medi treuliodd wythnos yn teithio o amgylch y Deyrnas Unedig yn ymweld â phrojectau cynaliadwyedd fel rhan o'i fenter 'Start' i geisio annog pobl a chymunedau i gymryd camau ymarferol i leihau eu defnydd o ynni a'u hôl troed carbon.

Gan fod Lluoedd Arfog Prydain yn gweithredu ym mhob rhan o'r byd, mae gan y Teulu Brenhinol rôl bwysig yn tynnu sylw at eu gwaith a'u haberth ac yn cynnal ysbryd y milwyr a'u teuluoedd, ac yn ystod 2010-11 cyflawnodd y Tywysog a'r Dduges 96 o ymrwymiadau gyda'r Lluoedd Arfog, yma yn y Deyrnas Unedig a thramor.

Yn ystod y flwyddyn, aeth Eu Huchelderau Brenhinol ar deithiau tramor swyddogol i India (lle yr agorodd y Tywysog Gemau'r Gymanwlad yn Delhi yn swyddogol ar ran y Frenhines, a oedd yn cael eu cynnal am y 19eg tro), ac i Bortiwgal, Sbaen a Morocco, yn ogystal â nifer o deithiau byrrach ar waith tramor.

YMRWYMIADAU A GWEITHGAREDDAU

Yn ystod 2010-11, cyflawnodd Tywysog Cymru gyfanswm o 639 o ymrwymiadau swyddogol, gyda 73 o'r rheini mewn gwledydd tramor, ac fe gyflawnodd Duges Cernyw 233 o ymrwymiadau, gyda 46 o'r rheini mewn gwledydd tramor.*

Mae rhestr lawn o ymrwymiadau a gweithgareddau eleni i'w chael ar www.princeofwales.gov.uk

229

o gyfarfodydd a sesiynau briffio

102

o drefi a dinasoedd yn y Deyrnas Unedig yr oedd Eu Huchelderau Brenhinol wedi ymweld â nhw

34,287

o filltiroedd a deithiwyd yn mynd i ymrwymiadau swyddogol yn y Deyrnas Unedig a thramor, ac yn teithio'n ôl adref wedyn

127

o dderbyniadau, seminarau, ciniawau canol dydd a chiniawau gyda'r nos

* Mae'r ystadegau hyn yn cynnwys pedwar diwrnod o ymrwymiadau cyhoeddus mewn gwledydd tramor ar ddechrau mis Ebrill 2011, ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Cawsant eu cynnwys er mwyn bod yn gyson â'r ffigurau ar gyfer teithiau tramor a gofnodwyd mewn Adolygiadau Blynyddol blaenorol.

9,658

o westeion yn dod i ddigwyddiadau yn y cartrefi Brenhinol

35,968

o lythyrau'n dod i law oddi wrth y cyhoedd

CYFRIFOLDEB AMGYLCHEDDOL

Mae Tywysog Cymru wedi bod yn arweinydd amgylcheddol am bron 40 o flynyddoedd, gan weithio gyda busnesau, llywodraethau a chyrff eraill i helpu i amddiffyn yr amgylchedd ac i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae Aelwyd Eu Huchelderau Brenhinol yn ceisio cwtogi ar ei hallyriadau o garbon, ac fe'u cwtogwyd o 31 y cant er 2007.

Llwyddwyd i gwtogi ar yr allyriadau sy'n dod yn sgil teithio yn y Deyrnas Unedig a thramor ac yn yr adeiladau preswylio a'r swyddfeydd drwy ddefnyddio llai o danwydd ffosil a mwy o ynni adnewyddadwy. Eleni daeth 29 y cant o'r cyfanswm o danwydd mae'r Aelwyd yn ei ddefnyddio o ffynonellau adnewyddadwy sy'n cynnwys boeleri sy'n llosgi naddion pren, pympiau gwresogi, paneli solar, biodanwyddau ar gyfer cludiant a thrydan o ffynonellau adnewyddadwy.

Mae'r Aelwyd hefyd yn monitro'r allyriadau o nwyon tŷ gwydr ac effeithiau cyffredinol Home Farm yn Highgrove gyda'r nod o'u lleihau yn y tymor hir. Bu'r fferm yn cael ei rhedeg ar sail organig am dros 25 o flynyddoedd, ac mae'n cynhyrchu dewis eang o wahanol fwydydd mewn ffordd sydd o fantais i'r amgylchedd.

Mae Tywysog Cymru hefyd yn dal i helpu i roi sylw i her y newid yn yr hinsawdd drwy waith ei wahanol fentrau a phrojectau, yn aml drwy gydweithio â llywodraethau, y sector preifat a chyrff anllywodraethol. Ymhlith y mentrau mae'r uned gynaliadwyedd rhyngwladol (*International Sustainability Unit*) (sy'n gweithio i hwyluso consensws ar fynd i'r afael â'r pethau sy'n herio'r amgylchedd fel diogelu cyflenwadau bwyd, cadernid ecosystemau a gweld cyfalaf naturiol yn cael ei ddisbyddu), a mentrau yn y sector fel y grŵp "ClimateWise" o'r prif gwmnïau yswiriant, y grŵp "P8" o'r prif gronfeydd pensiwn a Chynghrair y Sector Cyfreithiol (*Legal Sector Alliance*), Rhwydwaith Gŵyl Fai'r Tywysog (*The Prince's May Day Network*) sy'n cynnwys dros 3,500 o fusnesau'r Deyrnas Unedig, a Phroject Cyfrifyddu er Cynaliadwyedd y Tywysog (*The Prince's Accounting for Sustainability Project*).

Yn gyffredinol, mae Ei Uchelder Brenhinol yn mynd ati mewn ffordd integredig i roi sylw i broblemau amgylcheddol, sy'n cynnwys nid yn unig ymdrechion i gwtogi ar ôl troed carbon ei Aelwyd a'i defnydd o ynni, a'i brojectau a'i fentrau amgylcheddol penodol, ond hefyd ei waith mewn amryw o feysydd eraill. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys llawer o feysydd sy'n gorgyffwrdd, o hybu amaethyddiaeth gynaliadwy, cefnogi ffermwyr bach a thynnu sylw at bwysigrwydd prynu bwyd yn lleol a gwella addysg bwyd, i hybu dulliau mwy cynaliadwy o gynllunio a dylunio cartrefi a chymunedau mewn ffordd sy'n gwella ac yn ychwanegu gwerth at yr amgylchedd cymdeithasol, naturiol ac adeiledig.

Cyfanswm y CO_2 (tunelli metrig)



- **Yr Aelwyd**: Ffynonellau dan reolaeth yr Aelwyd
- **Yr Aelwyd**: Teithiau tramor swyddogol
- **The Home Farm**

Mae rhagor o wybodaeth am effaith amgylcheddol yr Aelwyd, gan gynnwys Cyfrif Cynaliadwyedd llawn, ar gael ar www.princeofwales.gov.uk.

ON. Cafodd yr allyriadau ar gyfer y blynyddoedd blaenorol eu diwygio'n unol â newid yn y canllawiau ar gofnodi allyriadau o'r defnydd o drydan. Cafodd ffigurau'r allyriadau o'r ffynonellau dan reolaeth yr Aelwyd yn ystod 2010 eu cofnodi eisoes fel 1,239 tunnell fetrig, a'r allyriadau o Home Farm fel 2,044 tunnell fetrig. Mae rhagor o fanylion ar gael ar www.princeofwales.gov.uk.

Yn ystod 2010, ychwanegodd Tywysog Cymru baneli solar ffotofoltäig at y rhestr o'r ffynonellau o ynni adnewyddadwy mae'r Aelwyd yn eu defnyddio i'w helpu i ddefnyddio llai o danwydd ffosil ac i allyrru llai o garbon.

Cafodd casgliad o 30 o baneli ei osod ar do Clarence House. Mae disgwyl iddyn nhw gynhyrchu tua 4,000 awr cilowat (kWh) o drydan gwyrdd y flwyddyn, gan arbed dros ddwy dunnell fetrig o allyriadau o garbon.

Eleni, mae tua hanner yr ynni mae'r Aelwyd yn ei ddefnyddio yn y cartrefi a'r swyddfeydd yn dod o ffynonellau adnewyddadwy. Yn eu plith mae boeleri sy'n llosgi naddion pren yn Highgrove, Birkhall a Llwynywermod, ynni solar a phympiau yn Highgrove sy'n tynnu gwres o'r ddaear a'r aer, a thrydan mae'r Aelwyd yn ei brynu o ffynonellau adnewyddadwy.

Yn Home Farm, mae casgliad o dros 400 o baneli solar ffotofoltäig yn cael ei osod a bydd yn cynhyrchu tua 80,000 kWh y flwyddyn, gan atal dros 40 tunnell fetrig o allyriadau o garbon.

"Gwelwyd gostyngiad o 22 y cant yng nghyfanswm yr allyriadau o garbon eleni, gan roi cyfanswm y gostyngiad yn 31 y cant er 2007."

DYLETSWYDDAU BRENHINOL A GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

Mae gwaith Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n cynnwys cefnogi'r Frenhines yn ei rôl fel canolbwynt balchder, undod a theyrngarwch y genedl, gan hyrwyddo ymdrechion elusennol drwy'r holl elusennau, nawddogaethau, projectau a mentrau y maen nhw'n gysylltiedig â nhw, a hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth y genedl.

"Cynorthwyodd y Tywysog i godi, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, £123 miliwn i hybu gweithgareddau ei elusennau."

Cefnogi'r Frenhines

Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd Eu Huchelderau Brenhinol amryw o wahanol ymrwymiadau gartref a thramor fel ei gilydd. Roedd y rhain yn amrywio o achlysuron seremoniol a chenedlaethol a chefnogi'r Lluoedd Arfog, i ymgymryd â theithiau tramor swyddogol er mwyn hybu buddiannau Prydain mewn gwledydd tramor. Yn y Deyrnas Unedig, aeth y Tywysog a'r Dduges i ymweld â chymunedau ar hyd a lled Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon fel rhan o'u dyletswyddau, tra aeth eu gwaith tramor ar ran Llywodraeth y Deyrnas Unedig â nhw i India, Portiwgal, Sbaen, Morocco, Ffrainc, Norwy a Gwlad Belg.

Gweithgareddau Elusennol

Ers dros 30 o flynyddoedd, mae Tywysog Cymru wedi bod yn flaenllaw yn y gwaith o adnabod angen elusennol a sefydlu a hybu elusennau i ddiwallu'r angen hwnnw. Ers dyddiau cynnar ei ymddiriedolaeth, *The Prince's Trust*, yng nghanol yr 1970au, datblygodd ei ddiddordebau elusennol i'r fath raddau fod ei 20 elusen graidd yn cynrychioli, fel grŵp, y fenter elusennol fwyaf yn y Deyrnas Unedig sy'n cwmpasu amryw o achosion. Mae'r elusennau ar y cyd yn cyflogi bron 1,600 o bobl, ac maen nhw'n weithgar mewn nifer o wahanol feysydd fel cyfle a menter, yr amgylchedd adeiledig, busnes cyfrifol, ac addysg.

Gymaint yw mesur y gwaith fel y cynorthwyodd Ei Uchelder Brenhinol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i godi £123 miliwn i hybu gweithgareddau ei elusennau yn ystod 2010-11. Ar ben hynny, mae symiau sylweddol o arian yn mynd at achosion elusennol o incwm ei fentrau cymdeithasol, ac un o'r rhain yw busnesau bwyd *Duchy Originals*.

Tra bod pob un o'r elusennau'n endid annibynnol dan ofal Bwrdd o Ymddiriedolwyr ar wahân, maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd hefyd o fewn grŵp Elusennau'r Tywysog. Maen nhw'n cydweithio'n agos ar faterion fel llywodraethu corfforaethol, codi arian, cynllunio, cyllid, cyfathrebu, adnoddau dynol ac ymchwil er mwyn sianelu eu hegni a bod mor effeithlon a chost effeithiol â phosib.

Mae Duges Cernyw hefyd yn gwneud llawer i hybu gwaith elusennau, yn bennaf drwy'r 60 o elusennau a chyrff y mae hi'n gweithredu fel eu noddwr neu eu llywydd. Mae ei gwaith elusennol yn amrywiol ond mae rhai themâu amlwg: iechyd, hybu llythrennedd, helpu pobl sydd mewn angen, elusennau sydd wedi'u lleoli yng Nghernyw, treftadaeth a'r celfyddydau, a lles anifeiliaid. Efallai mai ei gwaith mwyaf amlwg yw ei chyswllt â'r Gymdeithas Genedlaethol dros Osteoporosis, yr elusen y bu'n gysylltiedig â hi ers tro byd ar ôl i'r clefyd esgyrn-brau achosi marwolaeth ei mam a'i mam-gu.

Hybu ac Amddiffyn

Drwy eu gwaith, mae Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n ceisio hybu ac amddiffyn traddodiadau, rhinweddau a rhagoriaeth dragwyddol y wlad. Ymhlith pethau eraill, mae gwaith Ei Uchelder Brenhinol yn golygu tynnu sylw at gyflawniadau neu faterion a allai, heb ei gefnogaeth, gael ychydig iawn o sylw, cynorthwyo cymunedau gwledig Prydain, annog pobl i ffermio'n gynaliadwy, ac annog pobl o wahanol ffydd a chymunedau i fod yn fwy goddefgar a dod i ddeall ei gilydd yn well.

GWNEUD GWAHANIAETH

Byth ers i Dywysog Cymru sefydlu ei ymddiriedolaeth (*The Prince's Trust*) yn 1976, mae elusen fwyaf Prydain i bobl ifanc wedi bod wrthi'n helpu rhai o bobl ifanc mwyaf cythryblus y wlad i weddnewid eu bywydau.

Mae Steve Hardie o Arbroath yn yr Alban yn nodweddiadol o'r bobl y mae eu bywydau wedi'u gweddnewid ar ôl cael cymorth yr ymddiriedolaeth. Ar ôl brwydro am flynyddoedd lawer yn erbyn iselder a phroblemau iechyd meddwl eraill, a cham-drin cyffuriau a'i niweidio'i hun, aeth y dyn ifanc 24 oed at Ymddiriedolaeth y Tywysog i ofyn am help. Fel cymaint o bobl ifanc eraill sydd wedi gofyn i'r elusen am help, cafodd Steve ei gyfeirio at ei raglen 'Team' leol sef, yn achos Steve, yr un mae Coleg Dundee yn ei rhedeg.

Cafodd gyfle yn y coleg i gwrdd â phobl ifanc o'r un meddylfryd ag e, a dechreuodd ennill digon o hyder i wneud ffrindiau ac i ddechrau meddwl yn gadarnhaol am ei ddyfodol. Ysbrydolodd y rhaglen Steve i ddewis gyrfa'n gweithio gyda phobl ifanc, a llwyddodd i gael swydd ran amser mewn canolfan galw heibio yn Brechin, ardal o amddifadedd lle mae llawer o'r bobl ifanc yn camddefnyddio cyffuriau.

Mae'r swydd wedi helpu Steve i ennill hyder yn y gweithle – datblygiad arbennig o bwysig i ddyn ifanc a oedd yn credu ar un adeg na fyddai byth yn gweithio eto. Mae'n gwirfoddoli hefyd gydag un arall o brojectau'r ardal, sef Youth-Link Dundee, ac mae'r gwaith o fudd mawr iddo gan ei fod yn helpu pobl ifanc sy'n cael trafferthion mawr.

Fel ffordd o gydnabod yr help a gafodd oddi wrth Ymddiriedolaeth y Tywysog, daeth Steve yn ddiweddar yn un o Lysgenhadon Ifanc yr elusen, sef rôl sy'n golygu addysgu'r cyhoedd ynglŷn â gwaith yr ymddiriedolaeth a phwysigrwydd rhoi ail gyfle i bobl ifanc. Mae Steve yn enghraifft ardderchog o'r hyn mae Tywysog Cymru'n ei alw'n "gylch rhinweddol" – os oes ffordd o helpu pobl ifanc i weddnewid eu bywydau gallan nhw, yn eu tro, annog pobl ifanc eraill i wneud yr un peth.

Mae Tywysog Cymru a Duges Cernyw'n mynd yn rheolaidd i seremonïau i gyflwyno medalau ymgyrchu i'r dynion a'r menywod sy'n dychwelyd ar ôl gwasanaethu fel milwyr. Mae'r seremonïau hyn bob amser yn achlysuron arbennig a theimladwy i bawb sydd yno, ac mae Eu Huchelderau Brenhinol yn manteisio ar bob cyfle posib i wahodd milwyr i un o'r cartrefi Brenhinol – Clarence House, Sandringham neu Birkhall – i gael eu medalau.

Y llynedd, cyflwynodd Eu Huchelderau Brenhinol fedalau ymgyrchu mewn wyth o wahanol seremonïau. Roedd un o'r achlysuron hyn ym mis Rhagfyr 2010 pan wahoddodd Tywysog Cymru rhai o aelodau Corfflu'r Hofrenyddion i Clarence House i gael eu medalau ar ôl gwasanaethu yn Affganistan. Grŵp o'r awyrenwyr gorau yw Corfflu'r Hofrenyddion, sy'n cynnwys pedwar o sgwadronau awyr y Llynges, a bu'r Corfflu'n gwasanaethu ar y rhengoedd blaen ers y rhyfel cyntaf yn y Gwlff yn 1991.

Ar ôl gorymdeithio o'u barics, Wellington Barracks, ar hyd y Mall i Clarence House, safodd y milwyr mewn rhesi yn yr ardd i gael eu medalau oddi wrth y Tywysog o flaen llygaid eu teuluoedd. Ymunodd y milwyr a'u teuluoedd â'i Uchelder Brenhinol mewn derbyniad yn ei gartref wedyn.

Ar ôl cael ei fedal, dywedodd Lefftenant Jim Shattock: "Roedd yn fraint ac yn anrhydedd cael cwrdd â'r Tywysog yma yn Clarence House. Mae Corfflu'r Hofrenyddion wedi bod yn gwasanaethu yn Affganistan am dros dair blynedd ac mae sawl un ohonom wedi treulio sawl cyfnod yno ac ar fin mynd allan eto. Mae cael ein cydnabod fel hyn yn ardderchog."

42,000

o bobl ifanc yn cael help Ymddiriedolaeth y Tywysog yn ystod y flwyddyn

Rhagor o fanylion ar **www.princes-trust.org.uk**

GWNEUD GWAHANIAETH

Fel rhan o'i chefnogaeth gyson i fenywod sydd wedi bod yn destun troseddau rhywiol, aeth Duges Cernyw ym mis Mawrth 2011 i ganolfan y gwasanaeth argyfwng trais yn Ilford yn nwyrain Llundain. Yno, canmolodd waith '"ardderchog" y therapyddion, y cwnselwyr, swyddogion arbenigol yr heddlu a'r bobl eraill sy'n gofalu am y menywod sydd wedi cael eu treisio neu eu cam-drin yn rhywiol.

Ar ôl yr ymweliad, dywedodd Karen Ingala Smith, prif weithredwr Project Nia, sef grŵp a ddechreuodd yn 1975 fel lloches i fenywod ac sydd bellach yn cynnig dewis o wahanol wasanaethau i fenywod a'u plant: "Mae'n amlwg bod gan y Dduges ddiddordeb arbennig mewn problemau menywod a merched sydd wedi bod yn destun trais. Rwy'n meddwl bod gweld rhywun yn ei rôl hi'n cymryd diddordeb mewn rhywbeth sy'n dal yn dabŵ ac yn broblem ddigon amhoblogaidd, yn wych."

Ar ôl ei hymweliad â'r ganolfan, arweiniodd Ei Huchelder Brenhinol dderbyniad min nos yn Clarence House i sgwad yr Heddlu Metropolitan sy'n arbenigo ar dechnegau ymchwilio i droseddau rhywiol (sgwad SOIT). Mae croeso i swyddogion yr heddlu wirfoddoli i ymuno â'r sgwad ond mae'r gwaith yn arbennig o anodd gan ei fod yn rhoi pwyslais nid yn unig ar ddod â throseddwyr gerbron llys, ond hefyd ar gynorthwyo'r dioddefwyr a gofalu amdanyn nhw. Yn ystod y digwyddiad, dywedodd Vanessa Lawson, y Ditectif Ringyll Gweithredol sy'n hyfforddi recriwtiaid sgwad SOIT: "Mae'n ardderchog bod y Dduges mor barod i gydnabod ein gwaith."

Daeth tua 60 o swyddogion i'r derbyniad, ac ar ddiwedd yr achlysur dywedodd y Dduges wrthyn nhw: "Rydych chi'n gwneud gwaith ardderchog ac nid oes digon o bobl o bell ffordd yn gwybod amdano. Ond rwyf i'n gwybod, ac roeddwn i'n awyddus iawn i'ch gwahodd chi yma heno i mi gael diolch o galon i chi."

"Mae'n amlwg bod gan y Dduges ddiddordeb arbennig mewn problemau menywod a merched sydd wedi bod yn destun trais. Rwy'n meddwl bod gweld rhywun yn ei rôl hi'n cymryd diddordeb mewn rhywbeth sy'n dal yn dabŵ ac yn broblem ddigon amhoblogaidd, yn wych."

Karen Ingala Smith, prif weithredwr Project Nia

“Mae’n ardderchog bod y Dduges mor barod i gydnabod ein gwaith.”

Vanessa Lawson, Ditectif Ringyll
Gweithredol ar ran Heddlu
Metropolitan Llundain

Rhagor o fanylion ar
www.princeofwales.gov.uk
www.princes-foundation.org

Mae Tywysog Cymru’n credu y dylai pawb, waeth beth yw eu hincwm, allu teimlo’n berchen ar rywle ac yn falch o’u cymdogaeth. Dyma un o brif ddibenion ei elusen, Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig (*The Prince’s Foundation for the Built Environment*), sy’n bodoli’n unswydd i wella safon bywydau pobl drwy eu helpu i gynllunio neu ailadeiladu eu cymdogaethau.

Mae enghraifft dda o waith y Sefydliad i’w gweld ar Stad Camp Hill yn Nuneaton, Swydd Warwick. Dioddefodd Camp Hill yn arw yn sgil cau pyllau glo’r ardal yn ystod 80au’r ganrif ddiwethaf, ac aeth yr ardal drwy gylch o amddifadedd a mwy a mwy o droseddu tan 1998 pan oedd yn un o’r 10% uchaf o wardiau yn y Deyrnas Unedig lle’r oedd amddifadedd ar ei waethaf. Clustnododd Sefydliad y Tywysog yr ardal fel un lle’r oedd potensial i’w hadfywio, ac yn 1999 cafwyd help y Sefydliad i i ffurfio’r fenter adfywio “Pride in Camp Hill”. Ers hynny, gweithiodd y Sefydliad gydag awdurdodau lleol a datblygwyr i ymgynghori’n drwyadl iawn â’r cymunedau ac i roi cyngor ar gynllun a natur y strydoedd ac ar y problemau dylunio sy’n codi. Arweiniodd y gwaith hwn at sicrhau cartrefi fforddiadwy yr oedd gwir eu hangen yn yr ardal, a stryd fawr newydd sbon sy’n cynnig amwynderau fel swyddfa’r post, fferyllydd, archfarchnad ac adeilad cymunedol ar gost o £2 filiwn.

Mae Antony Biddle, dyn a fu’n byw ar hyd ei oes ar stad Camp Hill, yn canmol ymdrechion Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig: “Rydw i wedi byw ar stad Camp Hill ar hyd fy oes ac wedi bod yn falch erioed o gael dweud mai o’r ardal honno yr wyf i’n dod. Ond, ar ôl cael fy magu yn yr ardal, roedd yn dristwch mawr ei gweld hi’n dirywio yn ystod ugain mlynedd olaf y ganrif ddiwethaf. Ond ers i Sefydliad y Tywysog a Thywysog Cymru ei hun ysbrydoli’r gwaith o adfywio’r ardal – ac ers i stad Camp Hill ddechrau ymddangos ar ei newydd wedd – rydw i wedi gweld ysbryd y gymuned yn ailgynnau. Erbyn hyn, mae gennym ni ardal y gallwn ni fod yn falch ohoni, gwasanaethau newydd ar garreg ein drws a chymuned sy’n llawn bywyd newydd. Mae dyfodol cyffrous iawn i’r ardal ac i’r bobl sy’n byw yma.”

GWNEUD GWAHANIAETH

Bu Sefydliad y Mynydd Gwyrddlas (*The Turquoise Mountain Foundation*) yn gweithio drwy gydol y pum mlynedd diwethaf yn Kabul, prifddinas Affganistan, i adfer sgiliau adeiladu hynafol, i greu swyddi, ac i ail-greu synnwyr o berthyn i'r genedl drwy adfywio crefftau traddodiadol y wlad a'i threftadaeth gelfyddydol.

Ers i Dywysog Cymru ei sefydlu yn 2006, mae'r Sefydliad wedi creu Athrofa'r Celfyddydau a Phensaernïaeth Affganistanaidd, ailadeiladu cartrefi, gwarchod adeiladau hanesyddol ac agor ysgol a chlinig ym Murad Khane, y rhan artistig o'r hen ddinas yn Kabul. Mae'r Sefydliad hefyd wedi gwerthu eitemau traddodiadol o gelf a chrefft Affganistanaidd a oedd yn werth dros $1.2 miliwn.

Ymhlith y bobl sydd wedi elwa ar waith rhyfeddol Sefydliad y Mynydd Gwyrddlas mae Fazel Ahmad Durrani. Ym mis Rhagfyr 2010, graddiodd y dyn ifanc 23 oed a fu'n gweithio cyn hynny fel plymwr, o Athrofa'r Celfyddydau a Phensaernïaeth Affganistanaidd lle y dysgodd y grefft draddodiadol o wneud gemwaith sydd, yn ôl Fazel, "yn grefft nad yw'r genhedlaeth newydd yn gyfarwydd â hi o gwbl gan fod y rhan hon o'n treftadaeth ddiwylliannol hynafol wedi cilio dan gysgod 30 o flynyddoedd o ryfela a dinistr." Ar ôl cynilo peth o'r arian a enillodd drwy gomisiynau yn ystod ei flwyddyn derfynol yn yr Athrofa, mae Fazel wedi agor gweithdy gwneud gemwaith o'r enw "Key of Art". "Drwy sefydlu fy ngweithdy fy hun, rwy'n awyddus i gynnig cyfle i raddedigion a phobl ifanc eraill o Affganistan gael swydd," esboniodd Fazel. Mae Fazel yn teimlo ei fod mewn dyled i'r Mynydd Gwyrddlas a roddodd gyfle iddo ddysgu'r sgiliau traddodiadol sydd erbyn hyn yn caniatáu iddo ennill bywoliaeth dda mewn gyrfa newydd.

Mae Fazel yn benderfynol o drosglwyddo'r grefft i bobl ifanc eraill o Affganistan, er mwyn iddyn nhw wneud bywoliaeth a chael synnwyr newydd o falchder yn eu cenedl a'i threftadaeth ddiwylliannol sydd wrthi'n cael ei hadfer.

Mae Sefydliad y Mynydd Gwyrddlas wedi sefydlu Athrofa'r Celfyddydau a Phensaernïaeth Affganistanaidd, ailadeiladu cartrefi, gwarchod adeiladau hanesyddol ac agor ysgol a chlinig ym Murad Khane, yn Kabul.

$1.2 miliwn

Mae'r Sefydliad wedi gwerthu eitemau traddodiadol o gelf a chrefft Affganistanaidd a oedd yn werth dros $1.2 miliwn

Rhagor o fanylion ar
www.turquoisemountain.org
www.princes-regeneration.org

Mae Tywysog Cymru wedi hyrwyddo'r syniad o 'adfywio ar sail treftadaeth' am ddegawdau lawer, a phrin bod enghraifft well o'r ffordd mae'r cysyniad hwn yn gweithio na Stanley Mills yn Swydd Perth, sef casgliad o felinau cotwm o'r 18fed ganrif a ddechreuodd ar gyfnod newydd yn ei hanes pan gafodd help Ymddiriedolaeth Adfywio'r Tywysog (*The Prince's Regeration Trust* neu PRT) a *Historic Scotland*.

Achubwyd y melinau rhag cael eu dymchwel yn 1995 pan gynigiodd y Tywysog ei help drwy ofyn i'w elusen newydd, *The Phoenix Trust* (sydd bellach yn gweithredu dan yr enw PRT), gynorthwyo i achub yr adeiladau er mwyn eu defnyddio unwaith eto.

Ers hynny, cafodd y melinau eu hailddatblygu'n llwyr, ac fe wariodd Heritage Scotland filiynau o bunnoedd yn trosi un yn ganolfan i ymwelwyr, tra aeth PRT ati i drawsnewid dwy felin yn adeiladau preswylio. Mae'r casgliad cyfan wedi dod erbyn hyn yn atyniad pwysig i ymwelwyr, gan greu swyddi a denu incwm i'r ardal.

Ym mis Mehefin 2010, aeth y Tywysog i Stanley Mills i gwrdd â staff, trigolion a rhai o'r bobl a fu'n gweithio yn yr hen felinau cyn iddyn nhw gau. Nid oedd Ei Uchelder Brenhinol wedi gweld y melinau ers 1997 ac roedd yn hynod o fodlon ar y newidiadau rhyfeddol. Yn ystod yr ymweliad, dyfarnwyd y wobr arbennig Europa Nostra i'w elusen PRT. Rhwydwaith o gyrff ym maes treftadaeth o bob rhan o Ewrop yw Europa Nostra.

Dywedodd yr Athro Syr James Dunbar-Smith, cyn is-lywydd Europa Nostra yn ystod seremoni cyflwyno'r dyfarniad, fod yr Ymddiriedolaeth yn uchel ei pharch yn holl wledydd Ewrop fel "enghraifft o'r ffordd y gallai ac y dylai'r pethau hyn gael eu gwneud."

Soniodd Kaye Finlay, Rheolwr Canolfan Stanley Mills sydd hefyd yn byw yn un o'r fflatiau a droswyd, am y profiad pleserus o fyw yno: "Rwy'n anghofio weithiau fy mod i mewn gwirionedd yn byw mewn hen felin. Nid yn unig y mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu cartrefi prydferth mewn lleoliad unigryw, ond maen nhw hefyd wedi cadw adeilad gwych i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau.

GWNEUD GWAHANIAETH

"Mae'r Ymgyrch Wlân wedi cynyddu'r galw ar hyd a lled y byd ac wedi rhoi bywyd newydd i ddiwydiant magu defaid y Deyrnas Unedig; gallwn ni weld dyfodol disglair i'n gwlân yn sgil ymdrechion Tywysog Cymru."

Lesley Prior o Ddyfnaint, sy'n magu defaid i'w cneifio

1,000

o gwmnïau annibynnol sy'n wneuthurwyr carpedi wedi ymuno â'r ymgyrch wythnos o hyd ym mis Hydref 2010 i hyrwyddo gwlân

Gan ei fod yn benderfynol o gynorthwyo'r diwydiant gwlân a oedd mewn trafferthion, ac o addysgu pobl am bwysigrwydd gwlân fel ffabrig naturiol a chynaliadwy, lansiodd Tywysog Cymru'r Ymgyrch Wlân (*The Campaign for Wool*) ym mis Ionawr 2010.

Nod yr Ymgyrch yw hyrwyddo gwlân Prydain a'r Gymanwlad drwy hybu technegau cynhyrchu cynaliadwy a'i ragoriaeth fel ffabrig o gymharu â deunyddiau synthetig – ym myd crefftau a ffasiwn, yn y cartref ac fel deunydd inswleiddio adeiladau. Drwy wneud hyn, gobaith yr Ymgyrch yw helpu ffermwyr defaid drwy godi gwerth gwlân a chynyddu ei ddefnydd.

Ym mis Hydref 2010, wrth i'r 'Wythnos Wlân' gael ei lansio yn y Deyrnas Unedig, daeth dros 70 o frandiau byd ffasiwn, hanner dwsin o siopau adrannol cenedlaethol a bron 1,000 o gwmnïau carpedi annibynnol at ei gilydd i gymryd rhan mewn ymgyrch wythnos o hyd i hyrwyddo gwlân. Un o uchafbwyntiau'r wythnos oedd y 'Diwrnod Maes' yn Savile Row, pencadlys enwog byd teilwra Prydain yng nghanol Llundain, pan agorodd 12 o'r prif deilwriaid ffair ddefaid yng nghanol eu stryd a oedd dan garped arbennig o dyweirch.

Ers hynny, atgyfnerthodd yr Ymgyrch wrth i ffermwyr defaid allu gwerthu eu cneifiadau am brisiau uwch ac yn sgil ymateb prynwyr a oedd yn galw am fwy o wlân. Mae effaith yr Ymgyrch yn rhannau eraill y byd yn cynyddu hefyd. Ar ôl cyrraedd cyn belled ag Awstralia a Seland Newydd, mae cynlluniau ar y gweill i gynnal Wythnos Wlân Ryngwladol ym mis Hydref 2011 gyda digwyddiadau yn Amsterdam, Tokyo, Düsseldorf, Oslo ac Efrog Newydd.

Bu ymateb y diwydiant ym mhob rhan o'r byd i fenter Ei Uchelder Brenhinol yn unfrydol gadarnhaol. Dywed John Thorley, cadeirydd yr Ymgyrch Wlân: "Mae'r Ymgyrch Wlân yn un o'r prif rymoedd uno mwyaf effeithiol a welwyd yn y diwydiant gwlân am ddegawdau lawer." Ac yn ôl Lesley Prior o Ddyfnaint, sy'n magu defaid i'w cneifio: "Mae'r Ymgyrch Wlân wedi cynyddu'r galw ar hyd a lled y byd ac wedi rhoi bywyd newydd i ddiwydiant magu defaid y Deyrnas Unedig; gallwn ni weld dyfodol disglair i'n gwlân yn sgil ymdrechion Tywysog Cymru." Dywed Stuart McCullough, prif weithredwr cwmni *Australian Wool Innovation Ltd*, fod yr Ymgyrch Wlân: "yn arwydd pendant o dro ar fyd yn hanes gwlân", tra bo Edward Waterhouse, rheolwr marchnata Bulmer & Lumb, melin tecstilau yn Swydd Efrog, yn credu bod y Tywysog "wedi gwneud cymwynas fawr â'r diwydiant gwlân drwy ail-addysgu cwsmeriaid ynglŷn â gwerth a moethusrwydd y ffibr gwlân naturiol."

Rhagor o fanylion ar
www.campaignforwool.org

GWNEUD GWAHANIAETH

Un o brif heriau byd busnes ar hyd a lled y byd yw datblygu modelau busnes sy'n gweddu i'r unfed ganrif ar hugain ac sy'n gallu ymateb i gyfyngiadau planed nad yw ei hadnoddau'n ddi-ben-draw ac i boblogaeth fyd-eang sy'n cynyddu. Fel ffordd o ymateb i'r her, aeth Tywysog Cymru ati yn 2004 i sefydlu ei Broject Cyfrifyddu er Cynaliadwyedd (*Accounting for Sustainability Project* neu A4S), i gynnig cyngor i wahanol gyrff ynglŷn â rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd ac o ysgrifennu adroddiadau prif ffrwd.

.

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae A4S wedi gweithio gyda chyrff rhyngwladol sy'n gosod safonau'r dasg o greu adroddiadau ariannol ac adroddiadau ar gynaliadwyedd, yn ogystal â busnesau, buddsoddwyr, cyrff rheoleiddio gwarannau, a rhanddeiliaid eraill, i lansio'r Pwyllgor Rhyngwladol ar Adrodd Integredig (*International Integrated Reporting Committee* neu IIRC).

Uchelgais y Pwyllgor yw uno'r gwahanol ffyrdd o ysgrifennu adroddiadau ariannol, amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol i greu model integredig sy'n gweddu i'w bwrpas yn yr unfed ganrif ar hugain. Drwy gydol y flwyddyn, cafodd trafodaethau eu cynnal ar hyd a lled y byd mewn gwledydd fel Tsieina, India, Unol Daleithiau America, Awstralia ac ar hyd a lled Ewrop fel sail i gynigion ar gyfer fframwaith newydd o Adrodd Integredig.

Dywedodd Ishaat Hussain, Cyfarwyddwr Cyllid Tata Sons Ltd ac aelod o IIRC: "Cred sylfaenol grŵp Tata yw bod rhaid i gymdeithas elwa ar yr hyn rydyn ni'n ei wneud, a dyma pam rydyn ni o blaid datblygu ffordd integredig o greu adroddiadau. Rhaid i gynaliadwyedd fod yn rhan o'ch DNA."

Mae arweinwyr byd busnes fel Syr Richard Branson, Syr Stuart Rose, Theo Paphitis a Deborah Meaden i gyd o blaid neges A4S, a daethant at ei gilydd i gynhyrchu ffilm fer i'w dangos yn ystod fforwm blynyddol A4S. Yn yr un fforwm, soniodd George Osborne, Canghellor Trysorlys y Deyrnas Unedig, am ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyfrifyddu mewn ffordd well er lles cynaliadwyedd.

Mae'r pwyslais erbyn hyn ar sefydlu fframwaith byd-eang ar gyfer ysgrifennu adroddiadau mewn ffordd integredig. Bydd y fframwaith yn helpu cyrff i osod cynaliadwyedd wrth wraidd eu proses o wneud penderfyniadau, a bydd yn rhoi gwerth i gyfalaf naturiol, cymdeithasol a dynol y blaned y mae unigolion a busnesau'n dibynnu arno.

“Rhoddodd ei hymweliad hwb go iawn i bob un ohonom.”

Hayden Spokes, Mawrth 2011

Rhagor o fanylion ar
www.accountingforsustainability.org
www.emmaus.org.uk

Bu Duges Cernyw’n gweithredu fel Llywydd Emmaus UK ers mis Awst 2006. Mae Emmaus yn mynd i’r afael â phroblemau digartrefedd drwy rwydwaith o gymunedau hunangynhaliol sy’n caniatáu cyfle i bobl gael cartref, gwaith a synnwyr o berthyn. Yr enw ar drigolion Emmaus yw Cymdeithion, ac mae gan bob un ei ystafell ei hun ac mae pawb yn gweithio gyda’i gilydd.

Nod pob un o’r Cymunedau Emmaus yw dod yn fwy hunangynhaliol drwy godi incwm. Mewn awyrgylch sy’n cynnig cymorth ymarferol, mae’r Cymdeithion yn cael cyfle i ddysgu sgiliau newydd ac i adennill eu hunan-barch drwy weithio i gynorthwyo pobl eraill sydd mewn angen mwy dybryd. Mae 20 o Gymunedau Emmaus wedi cael eu sefydlu ar hyd a lled y Deyrnas Unedig, ac mae rhai eraill wrthi’n cael eu datblygu.

Ym mis Mawrth 2011, aeth y Dduges i ymweld â’r Gymuned Emmaus yn Swydd Gaerloyw sy’n gartref i 22 o Gymdeithion. Yn ystod ei hymweliad, cafodd y Dduges gyfle i gwrdd â Hayden Stokes, sef Cydymaith a fu’n byw yn Emmaus Swydd Gaerloyw ers mis Hydref 2010. Yn ôl Hayden, mae’r elusen wedi helpu i weddnewid ei amgylchiadau: “Cyn dod i Emmaus, roeddwn i’n mynd drwy gyfnod arbennig o gythryblus yn fy mywyd. Ers dod yma, rydw i wedi ennill llawer o hyder ac rwy’n gallu edrych ar fy mywyd fy hun ac ar fywyd yn gyffredinol mewn ffordd fwy cadarnhaol. Mae bod gydag Emmaus wedi gwneud i mi sylweddoli hefyd pa mor ffodus ydw i fy mod i’n gallu gwneud rhywbeth mor werthfawr.”

Ar ôl cwrdd â’i Huchelder Brenhinol, siaradodd Hayden am y ffaith fod gan yr elusen gefnogwr mor uchel ei pharch a brwdfrydig. “Fe wnes i fwynhau’r ymweliad yn fawr... Roedd dod i’n gweld ni’n beth caredig iawn i’w wneud, ac fe wnes i sylweddoli ar ôl cwrdd â’r Dduges ei bod hi’n berson twymgalon, ystyriol a thrugarog. Rhoddodd ei hymweliad hwb go iawn i bob un ohonom.”

INCWM, GWARIANT A STAFF

Mae'r adran hon yn disgrifio sut y caiff gweithgareddau a swyddfeydd Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry eu hariannu. Mae'r rhan fwyaf o'r costau staff a'r gwariant ar weithgareddau swyddogol ac elusennol yn cael eu talu o incwm preifat Ei Uchelder Brenhinol o Ddugaeth Cernyw.

CYFRIF INCWM A GWARIANT

Am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth

	2011 £000oedd	2010 £000oedd
Incwm ac ariannu		
Dugaeth Cernyw	17,796	17,161
Grantiau Cymorth	1,608	1,132
Adrannau eraill o'r Llywodraeth	354	532
Cyfanswm incwm ac ariannu	**19,758**	**18,825**
Gwariant		
Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol	9,444	9,059
Grantiau Cymorth:		
Swyddfa Llundain a'r cartref swyddogol	450	360
Teithio swyddogol (awyrennau a threnau)	1,080	692
Cefnogaeth cyfathrebu	78	80
	1,608	1,132
Teithiau tramor ac eilwyr milwrol	354	532
Gwariant swyddogol	11,406	10,723
Gweddill ar ôl y Costau Swyddogol	**8,352**	**8,102**
Trethi (yn cynnwys TAW)	4,398	3,484
Gwariant answyddogol	2,539	1,694
Gwarged gweithredu	**1,415**	**2,924**
Gwariant cyfalaf (llai dibrisio), ad-daliadau ar fenthyciadau a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn	1,184	2,695
Gwarged arian net	**231**	**229**

Incwm ac ariannu
(Cyfanswm o £19.758m)

- **£17.796m** o incwm o Ddugaeth Cernyw
- **£1,962m** o ariannu drwy Grantiau Cymorth ac Adrannau'r Llywodraeth

Gwariant a threthi
(Cyfanswm o £19.527m)

- **£11.406m** ar wariant swyddogol
- **£4.398m** ar drethi
- **£2.539m** ar wariant answyddogol
- **£1.184m** ar wariant cyfalaf (llai dibrisio), ad-daliadau ar fenthyciadau a throsglwyddo i gronfeydd wrth gefn

I gael rhagor o fanylion ariannol a data hanesyddol ac i weld y Cyfrif Cynaliadwyedd blynyddol, ewch i:
www.princeofwales.gov.uk

"Mae Ei Uchelder Brenhinol yn dewis defnyddio'r rhan fwyaf o'i incwm o'r Ddugaeth i dalu costau ei waith cyhoeddus ac elusennol ef a gwaith Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry."

INCWM AC ARIANNU

	£miliynau
Dugaeth Cernyw	**17.796**

Daw incwm preifat Tywysog Cymru o Ddugaeth Cernyw, stad o eiddo amaethyddol, masnachol a phreswylio yn Ne-orllewin Lloegr yn bennaf. Mae portffolio o fuddsoddiadau ariannol gan y Ddugaeth hefyd. Mae Ei Uchelder Brenhinol yn dewis defnyddio'r rhan fwyaf o'r incwm o'r Ddugaeth i dalu costau ei waith cyhoeddus ac elusennol ef a gwaith Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry. Y rheswm pennaf dros weld cynnydd o 4 y cant yn yr incwm oedd cynnydd yn yr enillion o fuddsoddiadau ariannol. Mae cyfrifon blynyddol Dugaeth Cernyw i'w gweld ar-lein ar www.duchyofcornwall.org.

	£miliynau
Grantiau Cymorth	**1.608**

Y Senedd sy'n rhoi'r arian i dalu costau swyddogol y Frenhines fel Pennaeth y Wladwriaeth neu waith i'w chynorthwyo, yn gyfnewid am ildio'r refeniw o Stad y Goron. Daw'r arian hwn mewn tair ffordd: (i) Rhestr Sifil ar gyfer y Frenhines a Blwydd-dal Seneddol ar gyfer Dug Caeredin, (ii) Grantiau Cymorth, a (iii) chostau y mae Adrannau'r Llywodraeth yn eu talu'n uniongyrchol. Nid yw Tywysog Cymru a Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry'n cael arian o'r Rhestr Sifil na Blwydd-dal Seneddol, ond mae'r tri Grant Cymorth a delir i Aelwyd y Frenhines – am Wasanaethau Eiddo, Teithio a Chyfathrebu – yn cael eu defnyddio'n rhannol i gynnal eu gweithgareddau swyddogol.

Mae rhagor o fanylion am daliadau'r Grantiau Cymorth i'w cael ar www.princeofwales.gov.uk. Caiff cyfrifon blynyddol eu cyhoeddi ar gyfer y tri Grant Cymorth ac mae copi o'r cyfrifon ar gael ar www.royal.gov.uk neu mae'n bosib cael copi drwy anfon cais at Ddirprwy Drysorydd y Frenhines, Palas Buckingham, Llundain SW1A 1AA.

	£miliynau
Adrannau'r Llywodraeth	**0.354**

Mae Adrannau'r Llywodraeth yn talu'r gwariant ar gostau staff sydd wedi'u secondio o'r Gwasanaethau Arfog i weithio i Dywysog Cymru a Duges Cernyw (gwariodd y Weinyddiaeth Amddiffyn £320,060 yn 2010-11) a rhai o gostau ymweliadau tramor swyddogol sy'n cael eu gwneud ar gais y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (gwariodd y Swyddfa Dramor a Chymanwlad £34,227 yn 2010-11).

GWARIANT

	£miliynau
Dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol	**9.444**

Cafodd dros 70 y cant o'r incwm ar ôl treth y mae Tywysog Cymru'n ei gael o Ddugaeth Cernyw, ei wario ar ddyletswyddau swyddogol ac elusennol. O'r cyfanswm o £9.444 miliwn, aeth £6.4 miliwn, neu 68 y cant, i dalu'r costau staffio. Mae dadansoddiad mwy manwl o wariant swyddogol ar gael ar www.princeofwales.gov.uk.

Mae Tywysog Cymru'n cyflogi'n uniongyrchol 158.9 o staff sy'n cyfateb i amser llawn. O'r rhain, mae 132.8 yn cynorthwyo'u Huchelderau Brenhinol, gan gynnwys Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry, wrth iddyn nhw ymgymryd â dyletswyddau swyddogol a gweithgareddau elusennol, ac mae 26 yn staff personol neu'n staff garddio a ffermio. Mae'r tabl ar dudalen 24 yn rhestru'r staff swyddogol yn ôl adran yr Aelwyd. Mae cyfanswm costau'r naill adran a'r llall, gan gynnwys cyflogau a gwariant arall, yn yr un tabl.

	£miliynau
Grant Cymorth: Y swyddfa a'r cartref swyddogol yn Llundain	**0.450**

Clarence House yw swyddfa a chartref swyddogol Tywysog Cymru a Duges Cernyw yn Llundain, a chartref swyddogol Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry. Mae'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ciniawau, derbyniadau a chyfarfodydd, ac mae'n gweithredu hefyd fel swyddfeydd ar gyfer staff swyddogol Eu Huchelderau Brenhinol. Mae'r prif ystafelloedd ar lawr gwaelod Clarence House ar agor i'r cyhoedd rhwng mis Awst a diwedd mis Medi bob blwyddyn. Cafodd dros 3,554 o bobl eu croesawu'n swyddogol i Clarence House yn ystod y flwyddyn ac fe dalodd 12,299 o ymwelwyr i fynd i mewn i weld y tŷ. Mae gan yr Aelwyd swyddfeydd eraill mewn rhannau eraill o Balas St James's, sydd bellach yn gartref hefyd i Aelwyd Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry. Y Grant Cymorth Gwasanaethau Eiddo sy'n talu costau cynnal a chadw Clarence House a chostau'r swyddfeydd eraill ym Mhalas St James's.

	£miliynau
Grant Cymorth: Teithio swyddogol mewn awyrennau a threnau	**1.080**

Rhan bwysig o rôl Tywysog Cymru fel Etifedd yr Orsedd yw, gyda Duges Cernyw, dod â phobl at ei gilydd yng ngwahanol rannau'r Deyrnas Unedig, gweithredu fel canolbwynt i fywyd y genedl, a chynrychioli'r wlad mewn gwledydd tramor. Mae hyn yn golygu llawer o deithio y mae angen ei wneud mewn ffordd effeithlon a diogel sy'n ateb y gofynion cyflwyno. Yn 2010-11, teithiodd Eu Huchelderau Brenhinol 34,287 o filltiroedd wrth deithio i gyflawni ymrwymiadau swyddogol yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 14,051 o filltiroedd o deithio mewn gwledydd tramor ar ran y Llywodraeth. Cost yr holl deithiau hyn yn 2010-11, ac eithrio teithio mewn ceir, oedd £1.080 miliwn, a Grant Cymorth y Teithio Brenhinol mewn Awyrennau a Threnau sy'n talu'r costau.

Mae'r ffigur hwn yn cynnwys dim ond y costau amrywiol ar gyfer teithiau'n defnyddio Sgwadron 32, Hofrennydd Y Frenhines a'r Trên Brenhinol. Gwneir hyn am fod costau awyrennau adenydd sefydlog a threnau'n digwydd p'un a ydyn nhw'n cael eu defnyddio neu beidio, ac nid ydyn nhw'n dod yn sgil unrhyw deithiau penodol. Mae esboniad llawn o hyn yn Adroddiad Blynyddol 2010-11 y Grant Cymorth ar gyfer Teithiau Brenhinol mewn Awyrennau a Threnau (*Grant-in-Aid for Royal Travel by Air and Rail Annual Report 2010-11*) – mae'r adroddiad ar gael ar www.royal.gov.uk.

	£miliynau
Grant Cymorth: Cymorth Cyfathrebu	**0.078**

Mae Swyddfa Tywysog Cymru'n mynd i wariant wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglen gyfathrebu, cynnal Swyddfa'r Wasg, diweddaru a datblygu ei gwefan, cynnig gwybodaeth gyffredinol ac addysgol i'r wasg a'r cyhoedd, a darparu Swyddogion y Wasg i helpu'r cyfryngau yn ystod ymrwymiadau ac ymweliadau swyddogol. Tywysog Cymru sy'n talu'r rhan fwyaf o'r costau hyn yn bersonol. Ond y Grant Cymorth Cyfathrebu a Gwybodaeth Frenhinol sydd yn draddodiadol wedi talu rhai o'r costau a ddaw yn sgil helpu'r cyfryngau mewn ymrwymiadau ar hyd a lled y wlad; cymorth cyfathrebu yw'r enw ar y gwaith hwn.

"Aeth Eu Huchelderau Brenhinol ar deithiau i India ym mis Hydref 2010 ac i Bortiwgal, Sbaen a Morocco ym mis Mawrth a mis Ebrill 2011. Aethant ar ymweliadau byrrach, naill ai gyda'i gilydd neu ar wahân, i Norwy, Ffrainc a Gwlad Belg."

	£miliynau
Eilwyr milwrol a theithiau tramor	**0.354**

Mae tri aelod o Swyddfa'r Gwastrodion a dau o'r pum Swyddog Negesau wedi'u secondio o'r Lluoedd Arfog i helpu Tywysog Cymru a Duges Cernyw i gyflawni eu dyletswyddau swyddogol. Y gost i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn 2010-11 oedd £320,060.

Mae'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn talu costau ymweliadau swyddogol tramor Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry (ac eithrio'r costau teithio a ddaw o'r Grant Cymorth ar gyfer Teithiau Brenhinol mewn Awyrennau a Threnau). Yn ystod 2010-11, aeth Eu Huchelderau Brenhinol ar deithiau swyddogol i India ym mis Hydref 2010 ac i Bortiwgal, Sbaen a Morocco ym mis Mawrth a mis Ebrill 2011. Aethant ar ymweliadau byrrach, naill ai gyda'i gilydd neu ar wahân, i Norwy, Ffrainc a Gwlad Belg. Mae'r ymweliadau hyn yn cael eu gwneud i gynorthwyo ac ar gais y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, a'u nod yw atgyfnerthu a datblygu'r berthynas dda sydd gan y Deyrnas Unedig â gwledydd ar hyd a lled y byd. Costau'r ymweliadau hyn i'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad yn 2010-11 oedd £34,227.

"Mae Tywysog Cymru'n talu treth incwm yn wirfoddol ar warged Dugaeth Cernyw. Y rheolau treth incwm arferol sy'n berthnasol, ar y raddfa o 50 y cant, ac fel unrhyw unigolyn preifat, mae'r Tywysog hefyd yn talu treth incwm ar bob incwm arall a threth ar enillion cyfalaf."

	£miliynau
Trethi	**4.398**

Mae Tywysog Cymru'n talu treth incwm yn wirfoddol ar warged Dugaeth Cernyw. Y rheolau treth incwm arferol sy'n berthnasol, ar y raddfa o 50 y cant, ac fel unrhyw unigolyn preifat, mae'r Tywysog hefyd yn talu treth incwm ar bob incwm arall a threth ar enillion cyfalaf. Mae'r swm o £4.398 miliwn yn cynnwys TAW. O gynnwys cyfraniadau Yswiriant Gwladol fel cyflogwr, a'r Dreth Gyngor, mae'r cyfanswm yn codi i £4.9 miliwn.

	£miliynau
Gwariant answyddogol	**2.539**

Yn ogystal â thalu am ddyletswyddau swyddogol Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry, ac am rai gweithgareddau elusennol ac atebolrwydd y Tywysog i dalu treth incwm, mae'r incwm o Ddugaeth Cernyw hefyd yn talu costau gwariant answyddogol Tywysog Cymru a'i deulu.

Mae'r gwariant answyddogol yn cynnwys costau cyflogi 8.6 o staff personol sy'n cyfateb i amser llawn, sy'n cynnwys ysgrifenyddion personol, pen-cogyddion, gweision, a staff ar gyfer Tywysog Cymru, Duges Cernyw, Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry. Ar ben y rhain, mae 17.4 o staff sy'n cyfateb i amser llawn yn gweithio ar y stad a'r ffermydd, ac yn y gerddi a'r stablau. Mae'r gwariant personol hefyd yn cynnwys cyfran briodol o gostau Highgrove House a Birkhall, a chostau cynnal stad a gerddi Highgrove. Mae'r ardd yn ased elusennol gwerthfawr, a daeth bron 31,402 o bobl i'w gweld y llynedd.

Mae costau Home Farm, fferm organig y Tywysog ar Stad Highgrove, wedi'u cynnwys dan y pennawd hwn. Fferm weithio yw hon a gafodd ei sefydlu gan Dywysog Cymru i ddangos y buddion masnachol ac amgylcheddol sy'n deillio o ffermio organig a chynaliadwy. Daeth tua 1,250 o bobl i'w gweld y llynedd.

STAFF

Fel yr oedden nhw ar 31 Mawrth 2011, ac ar gyfer y flwyddyn hyd at yr un dyddiad

	Staff sy'n cyfateb i amser llawn 2011	Costau Swyddogol £000oedd 2011
Prif Ysgrifennydd Preifat a Chynorthwywyr	**3.5**	
Swyddfa'r Ysgrifenyddion Preifat		
Yr Ysgrifennydd Preifat	1.0	
Dirprwy Ysgrifennydd Preifat ac Ysgrifenyddion Cynorthwyol	6.1	
Staff Ymchwilio a Gweinyddu	12.6	
Gohebiaeth	2.5	
Swyddfa Dug a Duges Caergrawnt a Thywysog Harry	7.8	
	33.5	**2,817**
Cyllid, Personél a Gweinyddu		
Trysorydd a Chynorthwywyr	2.0	
Cyllid a Rhestru eiddo	11.0	
Personél	7.6	
Archifau	3.0	
	23.6	**2,086**
Cyfathrebu		
Ysgrifennydd Cyfathrebu a Chynorthwyydd	2.0	
Ysgrifennydd y Wasg	1.0	
Ysgrifenyddion Cynorthwyol y Wasg	2.2	
Swyddogion y Wasg a Golygydd y Wefan	6.0	
	11.2	**824**
Meistr Adran yr Aelwyd		
Meistr yr Aelwyd a Chynorthwywyr	5.4	
Gwastrodion	2.0	
Cydgysylltwyr Rhaglenni a Theithio	4.0	
Bwtleriaid	1.3	
Pen-cogyddion a phorthorion y gegin	3.3	
Swyddogion negesau	5.3	
Derbynfa	1.0	
Gyrwyr	3.0	
Rheolwyr Tŷ a Staff Cadw Tŷ	11.8	
Gweision a Gwisgwyr	2.5	
Garddwyr a Gweithwyr Stad	18.7	
	58.3	**3,717**
Swyddfa Cyfarwyddwr yr Elusennau		
Cyfarwyddwr a Chynorthwywyr	2.7	
Pennaeth Gweithrediadau	0.5	
Rheolwr Gweithrediadau a Swyddog Marchnata	2.0	
Rheolwr Llywodraethu a Phrojectau	1.0	
	6.2	-
Cyfanswm y staff swyddogol ar 31 Mawrth 2011	**132.8**	**9,444**
Gweithgareddau Elusennol sydd wedi'u lleoli yn Clarence House		
Uned Gynaliadwyedd Rhyngwladol	9.7	
Cyfrifyddu er Cynaliadwyedd	4.6	
Projectau Elusennol eraill	2.0	
	16.3	-

ELUSENNAU'R TYWYSOG

Grŵp o fudiadau 'di-elw' yw 'Elusennau'r Tywysog', ac mae Tywysog Cymru'n gweithredu fel ei Lywydd. Sefydlodd y Tywysog ei hun 18 o'r 20 elusen.

Y grŵp hwn yw'r fenter elusennol fwyaf yn y Deyrnas Unedig sy'n cwmpasu nifer o achosion, ac mae'n codi dros £100 miliwn y flwyddyn. Mae'r mudiadau'n gweithio mewn amryw o wahanol feysydd yn cynnwys cyfle a menter, yr amgylchedd adeiledig, busnes cyfrifol, ac addysg. Ar ben hynny, mae cyfraniad nifer o fentrau cymdeithasol yn sylweddol gan eu bod yn rhoi eu holl elw i elusennau.

Mae'r elusennau'n ffordd o gyfleu safbwynt arloesol Tywysog Cymru yn y tymor hir, ac maen nhw'n ceisio rhoi sylw i feysydd lle mae angen sydd heb ei ddiwallu.

I ddysgu mwy, ewch i: http://princescharities.org

CYFLE A MENTER

The Prince's Trust
www.princes-trust.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 7543 1234
Rhadffon 0800 842 842

The Prince's Scottish Youth Business Trust
www.psybt.org.uk Ffôn: +44 (0) 141 248 4999

The Prince's Youth Business International
www.youthbusiness.org Ffôn: +44 (0) 203 326 2060

The Prince's Initiative for Mature Enterprise (PRIME)
www.prime.org.uk
www.primebusinessclub.com
Rhadffon: 0800 783 1904

PRIME Cymru
www.prime-cymru.co.uk Ffôn: +44 (0) 1550 721 813
Rhadffon: 0800 587 4085

The British Asian Trust
www.britishasiantrust.org
Ffôn: +44 (0) 20 7024 5739 neu +44 (0) 20 7024 5646

ADDYSG

The Prince's Drawing School
www.princesdrawingschool.org Ffôn: +44 (0) 20 7613 8568

The Prince's School of Traditional Arts
www.psta.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 7613 8500

The Prince's Teaching Institute
www.princes-ti.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 3174 3106

The Prince's Foundation for Children & the Arts
www.childrenandarts.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 3326 2230

YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG

The Prince's Foundation for the Built Environment
www.princes-foundation.org Ffôn: +44 (0) 20 7613 8500

The Prince's Regeneration Trust
www.princes-regeneration.org Ffôn: +44 (0) 20 7462 6440

Turquoise Mountain Foundation
www.turquoisemountain.org Ffôn: +44 (0) 1764 650 888

The Great Steward of Scotland's Dumfries House Trust
www.dumfries-house.org.uk Ffôn: +44 (0) 1290 425959

BUSNES CYFRIFOL

Business in the Community
www.bitc.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 7566 8650

The University of Cambridge Programme for Sustainability Leadership
www.cpsl.cam.ac.uk Ffôn: +44 (0) 1223 768850

Scottish Business in the Community
www.sbcscot.com Ffôn: +44 (0) 131 451 1100

In Kind Direct
www.inkinddirect.org Ffôn: +44 (0) 20 7398 5510

Arts & Business
www.artsandbusiness.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 7378 8143

The Prince's Countryside Fund
www.princescountrysidefund.org.uk Ffôn: +44 (0) 20 7566 8650
E-bost: victoria.elms@bitc.org.uk

MENTRAU CYMDEITHASOL

Duchy Originals
www.duchyoriginals.com

North Highland Initiative
www.mey-selections.com (cynnyrch)
Ffôn: 01955 606600
www.northhighlandsscotland.com (twristiaeth)
E-bost: info@northhighlandsscotland.com

Highgrove Enterprises
www.highgroveshop.com Ffôn: +44 (0) 845 521 4342

Turquoise Mountain Arts
www.turquoisemountainarts.af Ffôn: +93 (0) 799 34 17 25

SEFYDLIADAU

The Prince's Charities Foundation

The Prince's Charities Foundation (Canada)

The Prince's Charities Foundation (China)

The Prince of Wales Foundation (USA)

www.princeofwales.gov.uk

Manylion yr argraffu, y papur a'r cyhoeddi:
Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Addison www.addison.co.uk
Argraffwyd gan Pureprint Group gan ddefnyddio technoleg argraffu amgylcheddol **pureprint**.

Data amgylcheddol ar gyfer cynhyrchu'r ddogfen hon:

Ffibrau'r papur:	100% wedi'i adennill o wastraff defnyddwyr a gynhyrchwyd i safon ISO14001, ac yn ardystiedig gan FSC
Allyriadau CO_2:	138kg a gwrthbwyso 100%
Inc:	100% o olew llysiau
Toddyddion argraffu:	95% wedi'u glanhau a'u hailddefnyddio
Gwastraff sych:	99% wedi'i ailgylchu
IPA a ddefnyddiwyd:	0%

Mae'r holl systemau cynhyrchu wedi'u cofrestru i safonau ISO 14001:2004, ISO 9001: 2000 ac EMAS. Mae Pureprint Group yn argraffydd niwtral o ran carbon (CarbonNeutral®) sy'n gweithredu rhaglen cwtogi ar garbon cyn gwrthbwyso, ac mae wedi ennill Dyfarniad y Frenhines am Fenter: Datblygu Cynaliadwy.